Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 18 Mawrth 2022

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Paul Marshall (PM) drwy gyswllt Zoom
John Graystone (JG)
Rosemary Jones OBE (RJ) drwy gyswllt Zoom
Michaela Renkes (MK) (LlC) drwy gyswllt Zoom
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. *Gair o Groeso, cadarnhad o'r cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol*

Agorodd SD y sesiwn gan estyn croeso i bawb i gyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf y Bwrdd mewn dwy flynedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w adrodd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir. Tynnodd SD sylw at y ffaith bod rhywfaint o ailadrodd ar ddechrau Para 2 felly bydd y frawddeg sy'n cychwyn gyda 'Diolchodd SD i'r ddau is-bwyllgor...' yn cael ei dileu.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau bellach.

Gan gyfeirio at gamau gweithredu sydd ar y gweill:

- Bydd 188 yn cael ei ddwyn ymlaen;
- Bydd 194 yn cael ei drafod yn yr archwiliad dwfn ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf pwyllgor AARAC;
- 195 – cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 28 Mawrth;
- 196 – cyfarfod i'w drefnu.

2. *Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol*

Rhoddodd MP adroddiad cryno ar gyfarfod diwethaf y pwyllgor Cyllid/AD a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Roedd cofnodion y pwyllgor wedi'u dosbarthu ynghyd â 2 bapur ar y gwaith cyfredol ar y gyllideb. Roedd yr adroddiad ar faterion staff/Adnoddau Dynol yn hunan esboniadol ond tynnodd MP sylw at y penderfyniad i benodi aelod staff llawn amser ychwanegol i weithio ar farchnata digidol.

Roedd y gyllideb ar y trywydd iawn i ddod i ben eleni o fewn terfynau normal. Diolchodd MP i KL am ei gwaith rhagorol yn rheoli'r gyllideb. Mae problemau diwedd chwarter o ran cario rhywfaint o'r gyllideb drosodd wedi'u datrys bellach.

Cyfeiriodd MP at y trafodaethau presennol gyda LIC ynghylch y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd mae'r gyllideb sylfaenol yn 1.28 miliwn (gan gynnwys rhywfaint o gyllid prosiect y cytunwyd arno) ond mae ail bapur y gyllideb yn amlinellu'r hyn y gellid ei gyflawni pe bai LIC yn cytuno ar ffigwr cyllideb uchelgeisiol o 1.6 miliwn. Bydd y papur hwn yn cael ei addasu pan fydd y gyllideb wirioneddol wedi'i phennu.

Dywedodd MP wrth y Bwrdd hefyd fod rhywfaint o bryder wedi bod yn y pwyllgor a fyddai cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael ei chytuno mewn pryd ar gyfer gwneud taliad mis Ebrill. Cadarnhaodd MR unwaith y bydd y Gweinidog wedi cytuno ar y llythyr cylch gwaith yna byddai llythyr cynnig grant yn cael ei anfon allan. Gan nad yw'r taliad nesaf yn ddyledus tan ganol Ebrill, ni ddylai fod unrhyw broblemau o ran derbyn arian.

Holodd MP a fyddai'r llythyr cylch gwaith yn cwmpasu 3 blynedd. Cadarnhaodd MR y byddai'n cwmpasu tymor llawn y llywodraeth ac y byddai'n cael ei adnewyddu'n flynyddol.

Diolchodd SD i MP am ei adroddiad a manteisiodd ar y cyfle hefyd i atgoffa'r holl gyfarwyddwyr i anfon hawliadau cyn gynted â phosibl y mis hwn.

3. *Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg*

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis hefyd.

Roedd y pwyllgor hwn wedi ystyried diweddariadau i'r Gofrestr Risg, ac mae copi ohoni wedi cael ei dosbarthu i'r Bwrdd. Roedd trafodaeth wedi'i chynnal ynglŷn â lefelau sicrwydd yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a chydnabuwyd bod hon yn ddogfen ddynamig a ddylai adlewyrchu unrhyw newidiadau i lefelau risg.

Cytunwyd ar y cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd ffocws a chwmpas yr archwiliad hwn yn fwy strategol a bydd dadansoddiad manylach yn cael ei wneud drwy archwiliadau dwfn. Tynnodd MJ sylw at y ffaith y bydd nifer yr archwiliadau'n cael eu lleihau o 4 i 3 oherwydd lefel foddhaol o sicrwydd.

Cynhaliodd y cyfarfod hwn archwiliad dwfn ar seiberddiogelwch. MJ yw'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth enwebedig (SIRO.) Eglurodd KL y systemau a'r prosesau a oedd ar waith i'r pwyllgor a rhoddodd Sean Gaffney (SG), Cymwysterau Cymru, fwy o wybodaeth dechnegol am bensaernïaeth y system. Rhoddodd SG sicrwydd y dylai natur seiliedig ar gwmwl y system TG hon ei rhoi mewn llai o risg o ymosodiad seibr gan olygu hefyd y byddai'n rhwyddach i'w hynysu pe bai'n cael ei chyfaddawdu.

Ystyriwyd y cynllun adfer TG cyffredinol ac amlinellwyd rolau a chyfrifoldebau rhag ofn y byddai angen ei ddefnyddio.

Cytunwyd y byddai'r archwiliad dwfn nesaf yn canolbwyntio ar y broses gymeradwyo. Gofynnodd TE a fyddai modd nodi rhaglen o archwiliadau dwfn a nododd MJ fod hyn yn arwydd o aeddfedrwydd y broses.

Holodd JG a ddylid ystyried y sefyllfa bresennol o gofio'r rhyfel yn Wcráin a hefyd materion fel yr argyfwng costau byw yn y DU fel risgiau ychwanegol. Diolchodd MJ i JG am yr awgrymiadau defnyddiol hyn a chytunwyd y gallai'r sefyllfa yn Wcráin gynyddu risgiau o ymosodiadau seibr o bosibl. Cadarnhaodd TE fod y sefydliad mewn cysylltiad agos â Cymwysterau Cymru er mwyn ail-werthuso risgiau yn barhaus.

Dywedodd MJ fod ystyriaeth wedi'i rhoi i gostau adfer o unrhyw ddigwyddiadau seibr. Nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ond mae elfen o yswiriant wedi'i gynnwys gyda Cyber Essentials Plus rhag ofn y byddai unrhyw achos o dorri seiberddiogelwch.

Dywedodd MR wrth y cyfarfod y byddai'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn cynnal adolygiad annibynnol wedi'i deilwra ar bob corff cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys craffu ar strwythurau llywodraethu a byddai'n cynnwys cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd a staff hefyd.

Holodd SD ynghylch yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad hwn. Roedd MR yn rhagweld y byddai hyn yn digwydd yn 2023 gyda chyfnod sefydlu o 3 mis. Bydd modd cysylltu â sefydliadau ymlaen llaw ynglŷn ag amseroedd cychwyn ac i gytuno ar y camau nesaf.

Diolchodd SD i MJ am adroddiad y pwyllgor.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Roedd TE yn falch iawn y gellid cynnal y cyfarfod hwn o'r Bwrdd wyneb yn wyneb gan gydnabod bod y pandemig wedi helpu i gyflymu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar-lein cynhwysfawr. Diolchodd TE i holl aelodau'r Bwrdd am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn academaidd hon a thalodd deyrnged benodol i DP ac RJ

a fyddai'n gadael y Bwrdd yn awr. Roedd TE wedi mwynhau cydweithio â nhw yn fawr a diolchodd i'r ddau am eu cyfraniad gwerthfawr i'r Bwrdd.

Yna aeth TE drwy ei hadroddiad gan ystyried pob rhaglen waith yn ei thro.

Para 1.1 Sicrhau Ansawdd - roedd dau gais wedi dod i law o'r alwad gymeradwyo ddiwethaf, roedd un yn rhaglen a ariannwyd gan LlC ac roedd y llall wedi dod drwy'r Llwybr Arloesi. Roedd TE yn falch o gyhoeddi y byddai'r ddau gais yn symud ymlaen i ail gam y panel. Y bwriad yw cynnal digwyddiad darparwyr ym mis Mai a fydd yn gyfle i arddangos cymeradwyaeth.

Cyfeiriodd TE at y posibilrwydd o gyflymu rhywfaint o ddarpariaeth lle'r oedd gan ddarparwyr hanes da o gyflawni eisoes. Roedd hyn wedi cael ei drafod yn wreiddiol gan Bwyllgor AARAC.

Roedd MJ o blaid cynnal y digwyddiad ar gyfer darparwyr ac awgrymodd ymestyn y tu hwnt i'r gronfa bresennol o ddarparwyr.

Para 1.2 Arloesi – mae tri chais wedi'u hariannu o'r Llwybr Arloesi a'r gobaith yw y byddant yn dod ymlaen i gael eu cymeradwyo. Maent yn cynnwys cymorth ar gyfer hyfforddi a mentora arweinwyr gwaith ieuenctid.

Holodd MR sut byddai'r hyfforddi a'r mentora'n cyd-fynd â rhaglenni sy'n cael eu datblygu gan y rhanbarthau.

Cadarnhaodd TE na fu unrhyw gydweithredu â'r rhanbarthau hyd yma ond bod yr un yma'n cynnwys cydweithio â chwmni annibynnol arall.

Roedd y drydedd gyfres o arloesi ar y gweill bellach, sy'n canolbwyntio ar arloesi digidol ar y cyd ag Apple. Nid oes cymaint wedi cymryd rhan ag y rhagdybiwyd oherwydd yr amseru o bosibl. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd cael athrawon cyflenwi ar gyfer absenoldebau staff, sy'n achosi anhawster o ran rhyddhau staff i gymryd rhan. Mae penaethiaid wedi tueddu i ddirprwyo hyn i arweinwyr TG a digidol hefyd sy'n golygu nad oes ganddo'r trosolwg strategol cyfresi blaenorol.

Roedd MP wedi derbyn rhywfaint o adborth ynglŷn ag amseru'r sesiynau ar-lein hyn. Byddai'n well gan staff ysgol fod y rhain wedi'u cynnal yn ystod y diwrnod ysgol yn hytrach nag ar ddiwedd y dydd. Roedd TE yn gwerthfawrogi hyn gan fod y gweithlu'n flinedig iawn ar hyn o bryd. Gofynnir am adborth ar ddiwedd y gyfres hon.

Gofynnodd MJ sut byddai rhagoriaeth ddigidol, a oedd yn un o flaenoriaethau'r Gweinidog, yn cael ei diffinio yn yr achos hwn. Bydd MR yn gwneud ymholiadau ac yn adrodd yn ôl ar y pwynt hwn.

Pwysleisiodd RJ bwysigrwydd arloesi o ran y cwricwlwm ysgol newydd sydd â fframwaith clir iawn o ran cynnydd.

Para 1.3 Arweinyddiaeth System – wrthi'n meithrin perthynas â Chohortau 3 a 4 a fydd yn casglu comisiynau pan fydd y llythyr cylch gwaith wedi'i gytuno. Braf oedd nodi bod comisiynau presennol wedi bod yn dylanwadu ar bolisïau ar lefel y

llywodraeth. Mae cymdeithion yn derbyn llawer o geisiadau i fod yn bresennol a chyfranogi mewn fforymau.

Y bwriad yw cynyddu nifer y Cymdeithion yng Nghohort 5 i gynnwys y sector gwaith ieuenctid ac Ôl-16. Holodd JG a oes unrhyw gysylltiadau parhaus â Chohort 1 a 2 ac a yw eu cyfranogiad yn y rhaglen wedi bod o fudd i'w gyrfa. Dywedodd TE fod Cohort 1, sydd bellach yn cael ei adnabod fel cyn-fyfyrwyr, yn cefnogi digwyddiadau ar gyfradd ddyddiol a bydd yn cymryd rhan yn y digwyddiad blynyddol ar gyfer rhanddeiliaid hefyd. Cadarnhaodd TE fod enghreifftiau clir o'r ffordd y mae Cymdeithion wedi elwa'n bersonol ac o ran gyrfa. Tynnodd MR sylw hefyd at y ffaith bod LlC yn cysylltu â'r sefydliad yn aml i ofyn am ddefnyddio Cymdeithion ar gyfer pwynt cyfeirio.

Para 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth - cynhelir y gynhadledd Arweinyddiaeth Ganol ar 30 Mawrth. Roedd dros 100 eisoes wedi cofrestru ar gyfer y digwyddiad.

Mae gwaith gyda'r tair cenedl yn parhau ac mae Blether yn enghraifft dda o'r gwaith cydweithredol hwn. Mae'r Alban ac Iwerddon yn cyflawni rolau defnyddiol o fod yn ffrindiau beirniadol ychwanegol.

Mae Para 2.1 yn rhoi manylion y sylfaen dystiolaeth ar gyfer adnoddau. Bydd yr adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol sydd ar y we yn cael ei lansio'r wythnos nesaf – mae'n cael ei brofi gan aelodau staff a'r grŵp golygyddol ar hyn o bryd. Bydd yr adnodd yno i gefnogi pob ysgol a bydd yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod astudiaethau achos ac ati'n dal i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

Mae'r prosiect EIE wedi dod i ben erbyn hyn, ar wahân i astudiaethau achos a fydd yn rhan o'r adnodd hwnnw. Bydd yn rhan o Ddilysnod 6 o'r adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol.

Para 2.2 Cyfres Mewnwelediad – Mae'r papur Arweinyddiaeth Dosturiol gan Dr Ali Davies yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd. Y bwriad yw ei lansio erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon. Mae cynigion i wella lles arweinwyr yn cael eu hystyried. Mae uwch swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael papur rhagrybudd ac mae cyfarfod wedi'i gynnal gydag undebau yr wythnos hon. Roedd TE yn falch o gadarnhau bod llesiant bellach wedi'i gynnwys yn y llythyr cylch gwaith.

Estynnodd TE wahoddiad i unrhyw aelod o'r Bwrdd a hoffai fynychu'r gynhadledd Arweinyddiaeth Ganol ar 31 Mawrth i roi gwybod i'r swyddfa a bydd lle yn cael ei gadw.

2.3 Llesiant – mae hyn eisoes wedi cael sylw uchod.

2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol – trafodaeth yn dal i gael ei chynnal ag Awdurdodau Lleol ynghylch y gwaith hwn a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw eisoes. Mae Penaethiaid sy'n ymddeol wedi cysylltu â'r sefydliad gan eu bod am gymryd rhan yn y gwaith hwn. Holodd RJ ynghylch y rôl bosibl y gallen nhw ei chael. Mae'n ddyddiau cynnar ond mae TE yn bwriadu cydweithio ag Awdurdodau Lleol i gael gwell syniad o'r rhai sy'n ymddeol ac i ystyried y math o waith y gallen nhw ei wneud.

Dywedodd JG na fyddai pob pennaeth yn gallu cynnig lefel uchel o fewnbwn ac y dylid bod yn ofalus.

O safbwynt corfforaethol, cadarnhaodd SD fod y broses recriwtio ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd bellach wedi'i chwblhau. Mae'r Gweinidog wedi cytuno ar yr argymhellion ac mae cais yn cael ei wneud am eirdaon yn awr.

3.2 Swyddogaeth Weithredol – mae adolygiadau datblygu a gwella perfformiad wedi'u cynnal bellach gyda holl aelodau'r tîm. Mae'r maes hwn yn mynd drwy archwiliad mewnol ar hyn o bryd i nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Roedd TE yn falch o groesawu Kirsty Payne (KP) yn ôl yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Diolchodd TE i KL am wneud gwaith arbennig yn absenoldeb KP ac roedd yn falch iawn o'r cyfnod pontio di-dor wedi i KP ddychwelyd. Mae KL wedi llwyddo i sicrhau swydd newydd erbyn hyn ac fe wnaeth holl aelodau'r Bwrdd ei llongyfarch a dymuno'n dda iddi at y dyfodol.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – mae'r maes hwn yn gwneud yn dda iawn. Y prif adnoddau a lawrlwythwyd ym mis Chwefror oedd y papur gan yr Athro Alma Harris ar arweinyddiaeth system, yr wythnos anghymesur gan Gareth Evans ac arweinyddiaeth ganol gan yr Athro Christine Forde a Kathleen Keegan

Mae bwriad i gynnal mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gan gynnwys Eisteddfod Sir Ddinbych lle bydd stondin yn cael ei rhannu gydag Estyn a Cymwysterau Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, Ceredigion a'r Sioe Addysg Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn hysbysebu am swyddog gweithredol cyfathrebu digidol i roi cymorth technegol i Charlotte Thomas, Rheolwr Cyfathrebu. Bydd hwn yn benodiad graddedig am gyfnod o ddwy flynedd.

Roedd MJ a DP yn cefnogi'r penodiad hwn a chadarnhaodd TE fod digon o gyllid ar gyfer y swydd hon ar gael eisoes.

Awgrymodd DP y gallai fod yn ddefnyddiol i Charlotte egluro yn nhermau person lleyg beth a olygir gan dermau fel cyfraddau bownsio ac ati er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd ddealltwriaeth lawn. Cytunodd pawb y byddai hyn yn ddefnyddiol fel eitem ar agenda'r dyfodol, yn enwedig gan y bydd aelodau newydd yn ymuno â'r Bwrdd yn fuan i ymgymryd â'u penodiadau.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – fis diwethaf, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r grŵp rhanddeiliaid a ailgyfansoddwyd. Ers y cyfarfod hwnnw, penodwyd Owain Gethin Davies yn gadeirydd gyda Helen Ridout yn is-gadeirydd. Bydd y grŵp yn cyfarfod yn ffurfiol bob tymor ond bydd yn gweithio ar brosiectau llai hefyd. Bydd SD yn cydweithio'n agos â chadeirydd y grŵp er mwyn meithrin cysylltiadau. Y bwriad yw cynnal digwyddiad blynyddol ar gyfer rhanddeiliaid a fydd yn cynnwys mwy o bobl.

Holodd JG a fyddai'r cyfarfodydd hyn ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu cofnodi. Cadarnhaodd TE y bydd GA yn llunio cofnodion a fydd yn cael eu rhannu er

gwybodaeth. Bydd TE yn cyflwyno pwyntiau bwled hefyd yn dilyn unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gyda grŵp yr undeb.

Roedd RJ yn falch o glywed am y cynnydd gyda rhanddeiliaid a thynnodd sylw at y ffaith y byddai rôl TE fel Prif Weithredwr yn wahanol i rôl aelodau'r Bwrdd yma. Pwysleisiodd RJ bwysigrwydd sicrhau nad oes diffyg cyswllt rhwng y Bwrdd a rhanddeiliaid. Cydnabuwyd bod hwn yn bwynt da iawn.

Mewn ymateb i ymholiad JG ar lywodraethwyr, roedd TE yn gallu cadarnhau bod llywodraethwyr ysgol wedi'u cynnwys yn y llythyr cylch gwaith. Mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig ar lywodraethwyr ysgolion ar hyn o bryd hefyd.

Diolchodd SD i TE am adroddiad cynhwysfawr iawn ac roedd yn falch o weld cynnydd da mewn cymaint o feysydd gwaith.

5. *Yr wybodaeth ddiweddaraf am Gymdeithion*

Roedd SD yn falch o groesawu Claire Williams (CW) yn ôl a rhoddodd Claire yr wybodaeth ddiweddaraf am ei rôl fel Cydymaith a gychwynnodd ym mis Medi 2021. Mae CW wedi mwynhau'r rôl hon hyd yma ac roedd yn edrych ymlaen at ei phreswyliad cyntaf fis nesaf gan mai dyma fydd ei chyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb.

Soniodd CW am gyfleoedd niferus ei rôl newydd ac am gefnogaeth a brwdfrydedd cyd-aelodau ei chohort. Mae hyn wedi'i galluogi i rwydweithio'n ehangach ledled Cymru gan gynnwys gydag arweinwyr o'r sector ieuenctid.

Mae profiadau CW hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae hi wedi mwynhau gweld sut mae pethau'n gweithio'n ymarferol ar ôl eu gweld o safbwynt aelod o'r Bwrdd. Un pwynt dysgu fu'r holl waith paratoi sy'n cael ei wneud ar gyfer rhywbeth fel Blether er mwyn sicrhau bod y cyfan yn rhedeg yn llyfn.

Mewn ymateb i ymholiad gan MJ, roedd CW o'r farn bod enw da'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn tyfu ond y gallai'r sefydliad barhau i weithio ar wella ei 'gyrhaeddiad'. Fe wnaeth CW sylwadau hefyd ar y llu o wahaniaethau ar draws Cymru a'r gwahaniaethau o ran arweinyddiaeth broffesiynol. Dywedodd MJ fod y sefydliad yn cael ei grybwyll i raddau mwy mewn cyfarfodydd llywodraethwyr yr oedd yn eu mynychu.

Roedd CW yn falch o gadarnhau bod y Gynhadledd Arweinyddiaeth Ganol yn hyrwyddo'r sefydliad i fwy o arweinwyr nad oeddynt yn ymwybodol o'i gylch gwaith o'r blaen.

Diolchodd SD i CW am ei chyflwyniad a gofynnodd iddi gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd wrth symud ymlaen.

6. *Ystyriaethau'r Bwrdd*

Cododd SD y mater o sicrhau cworwm mewn cyfarfodydd is-bwyllgor a allai fod yn broblem weithiau oherwydd nifer gymharol fach yr aelodau. Awgrymodd SD y dylid ystyried dyblygu aelodaeth ar y ddau bwyllgor neu gadw cofrestr o aelodau dirprwyol

ond cododd JG a PM bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau posib. Cytunodd SD i ofyn am gyngor gan y Pwyllgor Cyrff Cyhoeddus cyn dod i unrhyw benderfyniad.

Roedd SD wedi dechrau edrych ar hyfforddiant Bwrdd perthnasol ar gyfer tri aelod newydd y Bwrdd a fyddai'n ymuno â'r Bwrdd yn fuan. Cytunwyd hefyd i gynllunio Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd a staff.

Cyfeiriodd MJ at nodyn y mae wedi'i anfon at SD i'w ystyried gan holl aelodau'r Bwrdd. Gan fod y sefydliad yn wynebu cryn newid ar hyn o bryd wrth symud o fan cychwyn i aeddfedrwydd, gellid ystyried hyn yn risg weithiau. Mae'n amser da felly i ailosod y sefydliad a chytunodd MJ y byddai Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yn fforwm ardderchog ar gyfer hyn.

Roedd SD yn credu y byddai colli DP ac RJ yn golled gan eu bod yn gyfarwyddwyr ers y cychwyn cyntaf. Diolchodd SD i'r ddau am eu holl waith caled a'u cefnogaeth i'r sefydliad gan obeithio y byddent yn cadw mewn cysylltiad. Ychwanegodd MR ei diolch a'i gwerthfawrogiad gan LlC hefyd.

Diolchodd RJ i bawb am eu cefnogaeth dros y pedair blynedd diwethaf ac roedd yn teimlo bod cael bod yn rhan o'r gwaith o'r cychwyn cyntaf wedi bod yn fraint wirioneddol. Roedd RJ yn falch iawn bod y sefydliad wedi aeddfedu erbyn hyn ac yn cael effaith wirioneddol ar bolisi ac arweinyddiaeth yng Nghymru. Atgoffodd RJ aelodau'r Bwrdd i gadw'r Gymraeg ar flaen eu meddwl hefyd.

Cymeradwyodd DP sylwadau RJ, diolchodd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod yr hyn a fu'n gyfnod o bedair blynedd hynod ddymunol a diddorol. Roedd DP yn teimlo ei bod wedi elwa'n fawr o ddysgu gan hen lawiau ar y dirwedd addysgol yng Nghymru a bydd yn parhau i wylio'r sefydliad yn tyfu o nerth i nerth.

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Unrhyw Fater Arall a Chau'r Cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw a dymunodd y gorau i'r aelodau sy'n ymadael. Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.

Bwriedir trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb arall gydag aelodau newydd y Bwrdd ar adeg briodol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ddydd Gwener 20 Mai.

Log Gweithredu

Rhif		Perchennog	Erbyn Pryd	Statws
188	Ystyried cydweithio ar lesiant	NM	Ar y gweill	
195	Trafod rhaglen Pisa	RJ a TE	Ebrill 2022	
196	Trafod tâl ac amodau arweinwyr	JG a TE	Mai 2022	

197	Addasu dogfen y gyllideb pan gytunir ar y cylch gwaith	KP	Ebrill 2022	
198	Anfon hawliadau treuliau	Pob cyfarwyddwr	Diwedd Mawrth 2022	
199	Paratoi rhaglen o archwiliadau dwfn	MJ	Mai 2022	
200	Archebu llefydd ar gyfer cynhadledd Arweinyddiaeth Ganol	Pawb	Diwedd Mawrth 2022	
201	Egluro termau cyfathrebu	CT	Mai 2022	